

## SUT I DALU FFI AM GAIS CYNLLUNIO

Gyda rhai mathau o geisiadau cynllunio sydd yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor mae ffi cynllunio yn ddaliadwy i'r Cyngor. **Gyda cheisiadau o'r fath mae angen talu'r ffi cynllunio ar yr un diwrnod y cyflwynir y cais. Ni fydd** cais sydd yn cael ei gyflwyno heb ffi (lle mae ffi yn angenrheidiol), neu gyda ffi sydd yn annigonol yn cael ei ystyried fel cais dilys.

Wrth ddefnyddio'r gwasanaeth cynnig cyngor cyn cyflwyno cais mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn ei gynnig, bydd ymateb ffurfiol gan y Gwasanaeth yn cynnwys cadarnhad o beth fydd y ffi cynllunio, os yw ffi yn angenrheidiol. Drwy ddefnyddio'r gwasanaeth yma felly, a chyn belled nad yw'r datblygiad sydd yn cael ei gyflwyno yn y cais yn wahanol i'r hyn drafodwyd cyn cyflwyno'r cais, bydd sicrwydd fod y ffi rydych yn ei gyflwyno yn ffi gywir.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn egluro'r dulliau y gallwch eu defnyddio i dalu ffi cynllunio.

### 1. Talu'n electroneg drwy'r Porth Cynllunio

Pan gyflwynir cais drwy'r Porth Cynllunio gellir hefyd talu'r ffi cynllunio'n electroneg ar yr un pryd. Dyma'r dull mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn ei ffafrio ar gyfer derbyn ceisiadau a ffioedd cynllunio, gan fod yr holl wybodaeth yn cael ei gyflwyno yn electroneg ac ar yr un pryd. Hefyd, mae'r ffaith fod y cais ei hun wedi ei gyflwyno yn electroneg yn hwyluso trefniadau'r Gwasanaeth wrth weinyddu'r cais.

### 2. Talu'n electroneg gyda cherdyn debit

Mae'r math yma o daliad yn berthnasol i gwsmeriaid sydd yn cyflwyno cais mewn person yn Siop Gwynedd (yn Ffordd y Cob, Pwllheli, yn Swyddfa Penarlâg, Dolgellau neu ym Mhencadlys, Caernarfon) ac yn gwybod beth yw'r ffi cynllunio ac eisiau talu gyda cherdyn debit. Ar gyfer taliadau o'r fath mae angen gwneud y taliad **yr un diwrnod** a chyflwynir y cais drwy ffonio 01766 711000 a bydd angen cadarnhau gwybodaeth yn cynnwys:

**Eich enw a manylion cyswllt**  
**Enw eich asiant (os yn berthnasol)**  
**Lleoliad y datblygiad**  
**Disgrifiad y datblygiad**  
**Y ffi cynllunio**

### 3. Talu gyda siec

Gellir talu'r ffi cynllunio drwy dalu gyda siec fydd angen ei atodi gyda'r cais. Mae hyn yn berthnasol i geisiadau fydd yn cael eu cyflwyno drwy'r post yn uniongyrchol i'r **Gwasanaeth Cynllunio, Swyddfa'r Cyngor, Ffordd y**

**Cob, Pwllheli, Gwynedd LL53 5AA**, neu lle bydd cwsmer yn ymweld â Siop Gwynedd (yn Ffordd y Cob, Pwllheli, yn Swyddfa Penarlag, Dolgellau neu ym Mhencadlys, Caernarfon).

**4. Talu gydag arian parod**

Nid yw'r Cyngor yn argymhell i ymgeiswyr dalu gydag arian parod. Er hyn, os dymunir talu gydag arian parod, bydd **rhaid** ymweld â Siop Gwynedd (yn Ffordd y Cob, Pwllheli), a gofyn am weld Swyddog o'r Gwasanaeth Cynllunio er mwyn delio gyda'r taliad.